**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Julie James
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

4 Tachwedd 2019

Cysgu ar y stryd yng Nghymru

Annwyl Julie,

Diolch am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 17 Hydref. Cafodd y Pwyllgor argraff glir bod cyflymder a brys yn perthyn i'r gwaith, yn enwedig ynghylch yr ymateb i argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. Fel y gwyddoch, mae cyflymder y cynnydd o ran delio â chysgu ar y stryd wedi bod yn destun pryder i'r Pwyllgor yn flaenorol. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir ar y mater pwysig hwn, ac edrychwn ymlaen at glywed eich ymatebion i adroddiadau dilynol y Grŵp.

Fodd bynnag, mae rhai materion yr ydym am roi sylw iddynt. Un o'r materion a drafodwyd gennym oedd sut orau y gellir darparu cefnogaeth i grwpiau penodol, megis yn achos digartrefedd ymhlith pobl ifanc ymhlith y gymuned LGBTQ+ neu bobl â chyflyrau niwroamrywiol. Er ein bod yn cydnabod effaith bosibl "rhwystrau artiffisial" a'r angen i fynd i'r afael â digartrefedd drwyddo draw, mae gennym bryder bod angen i wasanaethau cymorth yn y fframwaith digartrefedd ehangach gael eu teilwra mwy. Sut y byddwch yn sicrhau y bydd y fframwaith ehangach sy'n sail i'r dull unigol hwn ar lefel bersonol yn ystyried amgylchiadau ac anghenion penodol y gwahanol grwpiau sydd ag anghenion penodol?

Mae gennym bryderon ynghylch effeithiolrwydd y system bresennol o ran cefnogi pobl sydd â phroblemau o ran iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Roedd hyn yn rhywbeth y tynnwyd sylw arbennig ato yn ystod ein gwaith ymgysylltu â phobl sydd wedi cysgu ar y stryd. O ganlyniad i'r pryderon sydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

gennym, byddwn yn gwneud rhywfaint o waith pellach i gael deall lefelau'r ddarpariaeth gyfredol yn well, ac a oes rhwystrau rhag cael cymorth cydgysylltiedig sy'n ystyried camddefnyddio sylweddau a chyflyrau iechyd meddwl.

Hefyd, byddai'n dda cael rhagor o wybodaeth am sut y byddwch yn gwerthuso effaith y newidiadau yr ydych yn eu cyflwyno, gan gynnwys gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu. Yn benodol, sut y byddwch yn ystyried barn y rhai sy'n defnyddio cymorth a gwasanaethau, ac a yw'r newidiadau wedi arwain at welliannau yn y ffordd y mae'r system yn "teimlo" iddyn nhw. Rydym yn deall bod y math hwn o werthusiad ansoddol yn cael ei wneud mewn perthynas â phrofiadau pobl o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Yn olaf, mae'r rhaglen hon yn amlwg yn rhaglen newid uchelgeisiol a fydd, gobeithio, yn arwain at newidiadau go iawn a gweladwy, a gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd, ond a ydych chi'n hyderus y bydd gan awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth eraill ddigon o adnoddau i ddarparu'r rhaglen newid uchelgeisiol hon? Yn benodol, rydym yn ymwybodol bod awdurdodau lleol yn wynebu cyllidebau heriol, a bod llawer o wasanaethau statudol ac anstatudol wedi gweld gostyngiadau sylweddol oherwydd pwysau cyllidebol.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

John

John Griffiths

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.